Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2008/9

Pecyn Eglwys

Apêl De Affrica

Beth yw hyn i gyd?

Diolch am fod yn rhan o'n hapêl ni. O Orffennaf 2008 i Orffennaf 2009 byddwn yn gweddïo dros bobl De Affrica, gan ddysgu mwy am y wlad a chodi arian i fudiadau yno trwy Cymorth Cristnogol.

Yr ydym yn gosod her i ni ein hunain o godi £1 yr aelod bob mis dros flwyddyn yr apêl. Dydi hynny ddim yn swnio'n llawer, nac ydi? Ond gall £1 – pris cwpanaid o de, torth o fara neu gwpwl o fariau o siocled – gyflawni cymaint.

- Gall **£1.65** brynu 10 math gwahanol o baent powdwr lliw ar gyfer canolfan dysgu cynnar Thandanani.
- Gall **£10** brynu defnyddiau sy'n creu digon o elw o werthiant bowlenni Wola Nani i anfon wyth o blant oed cynradd i'r ysgol am flwyddyn.
- Gall **£10** brynu cyflenwad blwyddyn o ddeunydd ysgrifennu ysgol i un plentyn sy'n amddifad trwy HIV.
- Gall **£55** dalu am wythnos o wersi drama KCAP.

Beth sydd yn y pecyn yma?

Poster A3 i'ch eglwys

Taflenni ar gyfer pob teulu

Y pecyn yma sy'n cynnwys :-
gwybodaeth am y cefndir
cerddoriaeth ar gyfer Cân yr Apêl
Ffurflen Rhoddion i'w gopïo a'i dychwelyd gyda'ch rhoddion i'r apêl
cardiau gweddi sy'n llyfrnodau
Pum poster A4
Amlenni Rhoddion
Pum taflen i gyd-fynd â hwy, yn cynnwys

- storïau am bump o bobl a helpwyd gan ein pum partner
- darnau perthnasol o'r Beibl, syniadau ar gyfer pregeth a gwasanaethau
- gweddïau ac awgrymiadau gweddi
- syniadau i'r Ysgol Sul
- syniadau difyr i godi arian

Apêl De Affrica

Paratoi ar gyfer yr apêl

Dyma rai syniadau am bethau i'w gwneud nawr i baratoi ar gyfer yr apêl

- Apwyntio un person i hybu'r apêl yn eich eglwys. Nid eu gwaith hwy fydd gwneud popeth ond yn hytrach annog pobl eraill i gymryd rhan.

- Byddem yn hoffi i bob eglwys archebu bowlen arbennig yr apêl i'w ddefnyddio fel bowlen gasglu ar gyfer cyfraniadau'r eglwys. Gwneir y rhain yn Ne Affrica gan Wola Nani, un o'r mudiadau yr ydym yn eu cefnogi; trwy eu prynu yr ydym hefyd yn helpu i roi incwm i'r bobl sy'n eu gwneud. Cysylltwch â Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ; ffôn: 01792 795888, ebost: undeb@annibynwyr.org

- Fel ymateb eich eglwys i'r her o "£1 yr aelod bob mis", gallech ddefnyddio eich bowlen apêl unwaith y mis i gael casgliad arbennig ar gyfer yr apêl lle'r anogir pob un i roi o leiaf £1. Dewiswch y Sul gorau yn y mis ar gyfer eich eglwys chi i ffitio i mewn i batrwm arferol eich addoliad.

- Penodwch un Sul yn fuan ar ôl yr Undeb i lansio'r apêl yn eich eglwys chi. Cewch adnoddau yn y pecyn hwn i'ch helpu i gynllunio'r gwasanaeth yma.

- Cynlluniwch i benodi chwe Sul arall yn ystod y flwyddyn i fod yn ddiwrnodau arbennig yr apêl. Bydd yr adnoddau yn y pecyn hwn yn eich helpu i drefnu rhywbeth arbennig ar gyfer pob un o'r dyddiau hyn – cymaint neu chyn lleied ag y dymunwch chi – i gyd-fynd â gweddill eich addoliad.

Dyma rai syniadau am themâu, partneriaid a dyddiadau :

Ymroddiad
Gwasanaeth cychwynnol, Gorffennaf 2008 – lansio'r apêl yn eich eglwys chi

Angerdd
KCAP / Haf 2008 –
gweithgareddau gyda chanu a dawnsio

Amynedd
AFRA / Cynhaeaf (Medi/Hydref 2008) –
gweithgareddau o gylch y cynhaeaf a gofalu am y tir

Hyder
Wola Nani / Diwrnod AIDS Byd-eang (1 Rhagfyr 2008 – caiff ei nodi ar Dachwedd 30 mewn llawer o eglwysi).Gweithgareddau yn cynnwys addurno coeden Nadolig arbennig

Dewrder
Thandanani / Y Grawys 2009 (25 Chwefror – Ebrill 11) neu o gylch dydd Sant Folant (Chwefror 14) – gweithgareddau yn dangos cariad.

Maddeuant
PACSA / O gwmpas Pasg 2009 (Ebrill 12) – gweithgareddau ynglŷn â maddau.

Diolchgarwch
Gwasanaeth cloi – cofio a dathlu'r hyn a wnaeth eich eglwys dros flwyddyn yr apêl.

- Penderfynwch sut yr ydych yn mynd i sicrhau bod pawb yn gwybod am yr apêl a sut y mae eich eglwys yn ymateb. Er enghraifft, a fyddwch yn creu un hysbysfwrdd am y flwyddyn ar gyfer arddangosfa arbennig (gellir ei newid) gan ddefnyddio adnoddau y pecyn hwn? A fyddwch yn cynnwys rhywbeth yn eich cylchlythyr misol?

- Yr ydym wedi cyfansoddi cân apêl arbennig ar dôn o Dde Affrica i'w defnyddio mewn gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. Cewch hyd i'r gerddoriaeth yn y pecyn hwn a demo o'r gân ar ein gwefan i'w lawr-lwytho (hefyd ar gael ar CD – cysylltwch â ni Tŷ John Penri) Efallai yr hoffech ei ddysgu i'ch cynulleidfa cyn eich gwasanaeth i lansio'r Apêl.

- Yr ydym yn anfon dau gynrychiolydd, ynghyd ag aelod lleol o staff Cymorth Cristnogol, i weld drostynt eu hunain peth o'r gwaith y byddwn yn ei gefnogi yn Ne Affrica. Byddant ar gael i helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r apêl ar hyd y flwyddyn ond gan ein bod yn rhagweld llawer o geisiadau, penderfynwch yn fuan pryd y buasech am wahodd un ohonynt i'ch eglwys a chysylltwch â ni, Tŷ John Penri gyda'r dyddiadau cyn gynted â phosib.

Cysylltwch â ni os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i helpu eich eglwys i fod yn rhan o'r apêl. Mae'n apêl gyffrous a chredwn fod ein gweddïau, ein haddysgu a'n rhoi yn rhan bwysig o'n hymateb i gariad Duw tuag atom. Bendith Duw arnoch ac ar eich gwaith dros yr apêl.

Rhifau elusennau cofrestredig y DG: Cymorth Cristnogol 1105851, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 248076.
Rhif cwmni Cymorth Cristnogol 5171525